



# Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr

## 1 Ebrill 2019



### Beth yw'r prif bwyntiau?

Mae rheolwyr cartrefi gofal i oedolion wedi gorfod cofrestru gyda ni ers **2011**

Mae **1,304** o reolwyr wedi'u cofrestru, sef cynnydd ar **1,213** y llynedd

Mae **1,245** yn gweithio mewn gofal i oedolion ar hyn o bryd

Y bwriad yw agor y Gofrestr i weithwyr cartrefi gofal i oedolion o **2020**



### Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

Nid yw'r gyfradd menywod i ddynion (**4:1**) wedi newid

Mae canran y rheolwyr sydd wedi dechrau mewn rôl newydd yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf wedi codi o **48% yn 2014** i **52% eleni**

Nid yw'r canran o reolwyr sy'n gweithio ym mhob sector cyflogaeth wedi newid llawer yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf

Cynyddodd y ganran o reolwyr sy'n gallu siarad peth Cymraeg neu sy'n rhugl yn y Gymraeg o **38% i 40%**



### Faint sydd wedi gadael ac wedi ymuno â'r Gofrestr?

Yn y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd **108** o reolwyr y Gofrestr ac ymunodd **199**

O'r rhai a adawodd y Gofrestr, nid oedd **56%** ohonynt wedi cynnal eu cofrestriad

Roedd **10%** ohonynt wedi symud i swydd lle nad oedd angen cofrestru

Ymddeolodd **8%** ohonynt

Newidiodd **5%** ohonynt i weithio fel rheolwyr gofal cartref



### Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

Mae gan bob rheolwr gofal cartref gymhwyster perthnasol

Bellach, mae gan **43%** o reolwyr gofal cartref **Ddiploma Lefel 5** mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl i Oedolion)

Mae gan y gweddill gymhwyster cyfwerth



### Ym mhle mae rheolwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **82%** yn gweithio yn y sector preifaf

Mae **10%** yn gweithio i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **7%** yn gweithio yn y trydydd sector

Mae **27%** o reolwyr wedi bod yn eu rolau presennol ers dros **10** mlynedd

Mae **52%** o reolwyr wedi cychwyn rôl newydd yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf



### Beth yw proffil rheolwyr?

Mae **1,046** o fenywod a **258** o ddynion

Ar gyfartaledd, mae rheolwyr yn **49** mlwydd oed

Mae **94%** o reolwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig

Mae **40%** o reolwyr un ai'n siarad peth Cymraeg neu'n rhugl yn y Gymraeg

Mae gan lai nag **1%** o reolwyr anabled